5.6 ARWYDDION/HYSBYSEBION/LIFRAI

5.6.1 Mae'n bwysig fod y cyhoedd yn gallu adnabod a deall y gwahaniaeth rhwng Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat.

5.6.2 Mae platiau adnabod cerbydau yn hollbwysig o ran helpu pobl i adnabod cerbydau sydd wedi'u trwyddedu'n gywir. Ar bob cerbyd trwyddedig bydd plât wedi'i arddangos ar y tu blaen ac un ar y tu ôl.

5.6.3 Mae'n rhaid i Gerbyd Hacni sydd wedi'i drwyddedu gan y Cyngor fod ag arwydd wedi'i oleuo ar y to. Mae'r rhaid i'r arwydd fod â'r geiriau "Tacsi/Taci" arno a dylai fod wedi'i oleuo pan fydd ar gael i'w hurio.

5.6.4 Rhaid cyflwyno manylion unrhyw hysbyseb y dymunir ei osod ar Gerbyd Hacni i'r Adran Drwyddedu er mwyn i gynnwys yr hysbyseb gael ei ystyried. Os nad yw'r swyddog yn cymeradwyo'r hysbyseb/hysbysebion yna bydd y cais yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu er ystyriaeth.

6.2 CORFF

6.2.1 Ni fydd arwyddion allanol gweladwy o unrhyw ddifrod arwyddocaol blaenorol i'r cerbyd e.e. crafiadau dwfn

6.2.2 Bydd gorffeniad proffesiynol i baent y cerbyd.

6.2.3 Ni fydd arwyddion cyrydiad arwyddocaol ar y cerbyd. Mae cyrydiad yn cynnwys rhwd amlwg ac arwyddion o rwd – h.y. swigod ar y paent.

7.6 ARWYDDION A HYSBYSIADAU

7.6.1 Gall perchennog arddangos enw'r cwmni y mae'r cerbyd yn gweithio iddo a/neu ei rif ffôn ar ochr a/neu du ôl y cerbyd, ond ni fydd

unrhyw arwyddion, arwyddluniau a hysbysiadau yn cael eu harddangos y tu allan na'r tu mewn i'r cerbyd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Cyngor.

7.6.2 Mae'n rhaid i unrhyw berchennog sy'n dymuno defnyddio neu werthu lle ar y cerbyd i hysbysebu cwmni/busnes arall wneud cais i'r Cyngor yn gyntaf gan gynnwys hysbyseb drafft i'w ystyried. Dim ond un hysbyseb awdurdodedig a ganiateir.

7.6.3 Ni ddylai'r fath hysbysebion:

i) gynnwys unrhyw beth crefyddol neu wleidyddol
ii) hysbysebu alcohol neu dybaco
iii) fod yn bornograffig neu'n dramgwyddus
iv) hyrwyddo prisiau disgownt
v) hysbysebu ffioedd